



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG48365**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y  
Llywodraeth i'r ymgynghoriad, Diogelwch Adeiladau  
diffiniad arfaethedig o adeilad risg uwch

Medi 2023

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in  
English

**OGL** © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru,  
WG48365, ISBN Digidol 978-1-83504-685-2

## Cynnwys

|                                                                            |    |
|----------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. Cyflwyniad .....                                                        | 1  |
| 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg .....                             | 1  |
| 3. Ymdrin â'r ymatebion .....                                              | 2  |
| 4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – crynodeb byr ac ymateb y Llywodraeth ..... | 2  |
| 5. Y Camau Nesaf .....                                                     | 11 |

# 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad "Diogelwch Adeiladau diffiniad arfaethedig o adeilad risg uwch" a gyhoeddwyd ar 17 Chwefror 2023. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 12 Mai 2023. Mae ei strwythur yn seiliedig ar y cwestiynau a ofynnwyd o gwestiwn 2 i 15 yn y ddogfen ymgynghori. Roedd pob cwestiwn arall yn ymwneud â manylion personol.
- 1.2. Safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad sydd yn y crynodeb hwn ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ymateb i bob cwestiwn, ac eithrio'r rhai sy'n ymdrin â manylion personol.
- 1.3. Byddwch yn nodi yn y ddogfen hon fod y term "diffiniad" wedi'i newid i "disgrifiad". Mae hyn yn cyd-fynd yn agosach â'r ffordd y mae Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn nodi'r pwerau i wneud rheoliadau er mwyn disgrifio adeilad risg uwch.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

## 2.1. Yr ymatebwyr

- Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.
- Gofynnwyd i ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad nodi i ba un o'r 15 o sectorau a nodwyd ar y ffurflen y mae eu sefydliad yn perthyn (gan gynnwys opsiwn 'arall' hunanddynodedig). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gafwyd gan bob sector.

## 2.2. Dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl sector

| Math o Sefydliad                               | Nifer yr Ymatebwyr | %     |
|------------------------------------------------|--------------------|-------|
| Awdurdod Lleol                                 | 6                  | 19.4% |
| Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi                    | 1                  | 3.2%  |
| Corff proffesiynol                             | 5                  | 16.1% |
| Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu            | 3                  | 9.7%  |
| Parti arall sydd â diddordeb (rhowch fanylion) | 7                  | 22.6% |
| Pensaer                                        | 3                  | 9.7%  |
| Arolygydd Adeiladau – Awdurdod Lleol           | 2                  | 6.5%  |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr               | 1                  | 3.2%  |
| Awdurdod Gorfodi                               | 1                  | 3.2%  |

### 3. Ymdrin â'r ymatebion

3.1. Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod, ond, lle na wnaeth ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen, priodolwyd sylwadau i'r cwestiwn mwyaf priodol. Hefyd, roedd gan rai o'r cwestiynau dri ateb posibl: ydw, nac ydw, ddim yn siŵr. Lle nad yw ymatebwyr wedi ateb gan ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd, ond eu bod wedi mynegi eu barn yn glir wrth ateb, mae'r ymateb hwnnw wedi'i adlewyrchu yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, lle defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd 'Rwy'n cefnogi'r cynnig' nodwyd ydw fel ei ateb. Lle nad oedd ymateb clir, nodwyd 'dim ymateb' yn y dadansoddiad ystadegol, a chafodd yr ymatebion eu cynnwys yn y crynodeb o sylwadau.

### 4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – crynodeb byr ac ymateb y Llywodraeth

#### 4.1. Cwestiwn 2:

A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid cynnwys adeilad ag un uned breswyl, yn hytrach na dwy uned breswyl neu fwy, yn y diffiniad o "adeilad risg uwch"?

#### 4.1.1. Crynodeb o'r ymatebion

|                     |    |       |
|---------------------|----|-------|
| <b>Ydw</b>          | 24 | 77.4% |
| <b>Nac ydw</b>      | 2  | 6.5%  |
| <b>Ddim yn siŵr</b> | 3  | 9.7%  |
| <b>Dim ymateb</b>   | 2  | 6.5%  |

4.1.2. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid cynnwys adeiladau ag un uned breswyl yn y disgrifiad.

4.1.3. Nododd un ymatebydd y canlynol (â barn debyg i'r hyn a fynegwyd gan eraill): – 'multiples of risk are irrelevant, one residential unit equating to a minimum of one person is justifiable risk and warrants full protection to preserve life'.

4.1.4. Fodd bynnag, roedd rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig ond a oedd hefyd o'r farn bod anghysondeb â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 sy'n gymwys i Gymru a Lloegr, sydd fel arfer yn ymwneud, mewn perthynas ag eiddo domestig, â dwy uned neu fwy.

4.1.5. O blith yr ymatebion a roddodd ateb negyddol, cymysg oedd y sylwadau, gan gynnwys nad yw'r cynnig yn cyd-fynd â Lloegr, a bod mwy o risg yn gysylltiedig â dwy uned o gymharu ag un.

## Ymateb y Llywodraeth

- 4.1.6. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid y cynnig. Rydym wedi ystyried pob ymateb ac rydym o'r farn nad yw'r pwyntiau a wneir gan y rhai sy'n anghytuno â'r cynnig yn cyfiawnhau newid y disgrifiad arfaethedig.
- 4.1.7. Mae'r sylwadau ynghylch anghysondeb â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio wedi'u nodi a byddwn hefyd yn ystyried diwygio'r 'Rheoliadau adeiladu a chanllawiau gweithdrefnol diogelwch tân' (a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a Llywodraeth Cymru) er mwyn sicrhau bod y gwahaniaeth hwn rhwng Cymru a Lloegr yn cael ei nodi'n glir.
- 4.1.8. Mae ymatebion y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig i gynnwys un uned breswyl wedi'u nodi. Fodd bynnag, ystyrir bod y lefel o risg sy'n gysylltiedig ag un uned yn cyfiawnhau eu cynnwys yn y disgrifiad.

### 4.2. Cwestiwn 3:

A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid cynnwys ysbytai a chartrefi gofal?

#### 4.2.1. Crynodeb o'r ymatebion

|                     |    |       |
|---------------------|----|-------|
| <b>Ydw</b>          | 23 | 74.2% |
| <b>Nac ydw</b>      | 1  | 3.2%  |
| <b>Ddim yn siŵr</b> | 2  | 6.5%  |
| <b>Dd/G</b>         | 2  | 6.5%  |
| <b>Dim ymateb</b>   | 3  | 9.7%  |

- 4.2.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys ysbytai a chartrefi gofal ac roeddent yn cefnogi'r rhesymau a roddwyd dros y cynnig hwn.
- 4.2.3. Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig gan nodi bod ysbytai a chartrefi gofal yn dibynnu ar weithdrefnau staff ac arferion gwacáu penodol ac, felly, fod y risg yn gynhenid ar unrhyw uchder.

## Ymateb y Llywodraeth

- 4.2.4. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid y cynnig ac ar ôl ystyried pob ymateb byddwn yn bwrw ymlaen â'r disgrifiad fel y'i cynigiwyd.
- 4.2.5. Mae'r penderfyniad i gynnwys ysbytai a chartrefi gofal yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y broses o graffu ar yr hyn a elwir bellach yn Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach mewn ymateb i'r ymgynghoriad a fyddai'n cyfiawnhau newid y disgrifiad arfaethedig.

#### 4.3. Cwestiwn 4:

A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid eithrio sefydliadau preswyl diogel (e.e. carchardai)?

##### 4.3.1. Crynodeb o'r ymatebion

|                     |    |       |
|---------------------|----|-------|
| <b>Ydw</b>          | 17 | 54.8% |
| <b>Nac ydw</b>      | 5  | 16.1% |
| <b>Ddim yn siŵr</b> | 3  | 9.7%  |
| <b>Dd/G</b>         | 2  | 6.5%  |
| <b>Dim ymateb</b>   | 4  | 12.9% |

4.3.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid eithrio sefydliadau preswyl diogel. Ar y cyfan, roedd hyn ar yr amod bod mesurau rheoli digonol yn cael eu gosod arnynt o fewn y cyrff sy'n eu rheoli.

4.3.3. Ar y cyfan, roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig o'r farn y dylid cynnwys pob adeilad sy'n cyrraedd y trothwy uchder ni waeth pwy sy'n ei reoli.

##### Ymateb y Llywodraeth

4.3.4. Rydym wedi ystyried pob ymateb. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid y cynnig. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r disgrifiad fel y'i cynigiwyd (gyda rhai mân ddiwygiadau yn cael eu gwneud er eglurder).

4.3.5. Rydym hefyd wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac rydym yn fodlon bod ei gweithdrefnau yn ddigon cadarn fel na ellir cyfiawnhau cynnwys sefydliadau preswyl diogel ar yr adeg hon.

#### 4.4. Cwestiwn 5:

A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid eithrio sefydliadau hamdden dros dro (e.e. gwestai)?

##### 4.4.1. Crynodeb o'r ymatebion

|                     |    |       |
|---------------------|----|-------|
| <b>Ydw</b>          | 7  | 22.6% |
| <b>Nac ydw</b>      | 17 | 54.8% |
| <b>Ddim yn siŵr</b> | 4  | 12.9% |
| <b>Dd/G</b>         | 0  | 0.0%  |
| <b>Dim ymateb</b>   | 3  | 9.7%  |

4.4.2. Roedd 55% o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylid eithrio sefydliadau hamdden dros dro.

4.4.3. Roedd y prif bryderon yn cynnwys:

- Roedd y duedd i beidio â staffio'r sefydliadau hyn ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos a dibynnu ar TG yn destun pryder
- Mae'r gyfradd ddeiliadaeth uchel iawn mewn adeiladau o'r fath yn golygu ei bod yn anodd eu gwagio'n ddiogel ac yn gyflym.
- Mae gwesteion yn debygol o fod yn anghyfarwydd â chynlluniau unigol adeiladau o'r fath, yn arbennig sut i gyrraedd eu hystafelloedd gwely a dod oddi yno ac, felly, byddant yn llai abl i adael adeiladau o'r fath yn ddiogel ac yn gyflym.

### **Ymateb y Llywodraeth**

4.4.4. Er nad oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid eithrio sefydliadau hamdden dros dro (e.e. gwestai), ni ddarparwyd digon o dystiolaeth o blaid eu cynnwys yn y disgrifiad. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r disgrifiad fel y'i cynigiwyd.

4.4.5. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod tuedd yn dod i'r amlwg o ran y ffordd y mae rhai gwestai yn cael eu rheoli. Yng Nghymru, mae pob gwesty a fyddai'n dod o dan y disgrifiad hwn yn cael eu staffio ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos.

4.4.6. Caiff gwestai eu rheoleiddio o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ac, er y bu rhai newidiadau o ran y ffordd y maent yn cael eu rheoli, ar y cyfan mae'r adeiladau hyn yn cael eu staffio ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd.

4.4.7. Dylai fod gan yr adeiladau hyn sawl llwybr dianc, arwyddion a goleuadau argyfwng er mwyn helpu i wagio'r adeilad ac, ar y cyfan, byddai ganddynt lefel uwch o systemau synhwyro a larymau tân o gymharu ag adeiladau preswyl.

4.4.8. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gan ymatebwyr a newidiodd y proffil risg ar gyfer gwestai sy'n wahanol i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd neu a ddeallwyd yn flaenorol ac, felly, rydym yn dal i gynnig y dylid eithrio sefydliadau hamdden dros dro.

4.4.9. Fodd bynnag, yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r disgrifiad, mae Llywodraeth y DU yn cynnal darn sylweddol o ymchwil a fydd yn darparu tystiolaeth fanwl o broffiliau risg ar gyfer nifer o adeiladau gan gynnwys gwestai. Bydd yr ymchwil honno yn nodi a fydd angen adolygu'r rheoliadau hyn ymhellach.

4.4.10. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r mater hwn pan fydd ymchwil Llywodraeth y DU i broffiliau risg ar gyfer adeiladau ar gael ac wedi'i hadolygu.

#### 4.5. Cwestiwn 6:

A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid eithrio safleoedd milwrol (e.e. barics milwrol)?

##### 4.5.1. Crynodeb o'r ymatebion

|                     |    |       |
|---------------------|----|-------|
| <b>Ydw</b>          | 18 | 58.1% |
| <b>Nac ydw</b>      | 5  | 16.1% |
| <b>Ddim yn siŵr</b> | 3  | 9.7%  |
| <b>Dd/G</b>         | 2  | 6.5%  |
| <b>Dim ymateb</b>   | 3  | 9.7%  |

4.5.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno y dylid eithrio safleoedd milwrol, yn yr un ffordd ag yr oeddent yn cytuno y dylid eithrio sefydliadau preswyl diogel, sef bod hynny'n digwydd ar yr amod bod mesurau rheoli digonol yn cael eu gosod arnynt o fewn y cyrff sy'n gyfrifol am adeiladau o'r fath.

4.5.3. Ar y cyfan, nododd y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig y dylid trin pob sector yn gyfartal.

#### Ymateb y Llywodraeth

4.5.4. Rydym wedi ystyried pob ymateb. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid y cynnig. Rydym yn cydnabod rhesymau'r rhai a oedd yn anghytuno, ond byddwn yn bwrw ymlaen â'r disgrifiad fel y'i cynigiwyd.

4.5.5. Rydym hefyd wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac rydym yn fodlon bod ei gweithdrefnau yn ddigon cadarn fel na ellir cyfiawnhau cynnwys safleoedd milwrol ar yr adeg hon.

#### 4.6. Cwestiwn 7:

A ydych yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o "adeilad"?

##### 4.6.1. Crynodeb o'r ymatebion

|                     |    |       |
|---------------------|----|-------|
| <b>Ydw</b>          | 20 | 64.5% |
| <b>Nac ydw</b>      | 3  | 9.7%  |
| <b>Ddim yn siŵr</b> | 4  | 12.9% |
| <b>Dd/G</b>         | 1  | 3.2%  |
| <b>Dim ymateb</b>   | 3  | 9.7%  |



- 4.6.2. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r disgrifiad o adeilad ac roeddent yn fodlon ei fod yn cyd-fynd â Deddf Adeiladu 1984.
- 4.6.3. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r disgrifiad o'r farn ei fod yn peri rhywfaint o ddryswch o hyd am nad yw'n llwyr adlewyrchu'r disgrifiad yn Neddf Adeiladu 1984.

#### **Ymateb y Llywodraeth**

- 4.6.4. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n disgrifiad, ar ôl edrych ar rai o'r sylwadau eraill, roeddem o'r farn y gellid gwella'r disgrifiad o "adeilad", yn enwedig mewn perthynas â'r term "rhan". Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r rheoliadau drafft er mwyn sicrhau mwy o eglurder.

#### **4.7. Cwestiwn 8:**

A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o bennu uchder adeilad a nifer y lloriau ynddo?

##### **4.7.1. Crynodeb o'r ymatebion**

|              |    |       |
|--------------|----|-------|
| Ydw          | 20 | 64.5% |
| Nac ydw      | 5  | 16.1% |
| Ddim yn siŵr | 2  | 6.5%  |
| Dd/G         | 1  | 3.2%  |
| Dim ymateb   | 3  | 9.7%  |

- 4.7.2. Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r dull arfaethedig o bennu uchder adeilad a nifer y lloriau ynddo. Y consensws cyffredinol oedd ei fod yn cyd-fynd â'r canllawiau a nodir yn Nogfen Gymeradwy B a bod hyn yn cael ei ddeall a'i fod yn foddhaol.
- 4.7.3. Cafwyd sylwadau a oedd yn codi pryderon nad yw'r dull hwn yn glir a bod Dogfen Gymeradwy B hefyd yn aneglur. Er enghraifft, gallai fod problem gyda mathau penodol o senarios lle mae llethrau neu lwybrau troed serth ger yr adeilad sy'n golygu y gallai'r mesuriad hwn fod yn anghywir.

#### **Ymateb y Llywodraeth**

- 4.7.4. Roedd mwyafrif mawr o blaid y cynnig. Felly, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r dull fel y'i cynigiwyd (gan wneud rhai mân ddiwygiadau iddo er eglurder). Caiff y pwyntiau a godwyd ynglŷn â phryderon ynghylch eglurder eu hystyried ymhellach mewn adolygiadau o'r rheoliadau hyn a gynhelir yn y dyfodol a/neu pan gaiff Dogfen Gymeradwy B ei hadolygu.

#### 4.8. Cwestiwn 9:

A ydych yn fodlon bod y costau fel y'u nodir yn yr asesiad o'r effaith economaidd yn cynnwys yr holl gostau tebygol sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn well ar gyfer adeiladau risg uwch?

##### 4.8.1. Crynodeb o'r ymatebion

|                     |    |       |
|---------------------|----|-------|
| <b>Ydw</b>          | 14 | 45.2% |
| <b>Nac ydw</b>      | 1  | 3.2%  |
| <b>Ddim yn siŵr</b> | 7  | 22.6% |
| <b>Dd/G</b>         | 5  | 16.1% |
| <b>Dim ymateb</b>   | 4  | 12.9% |

4.8.2. Nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn siŵr neu na wnaethant ddarparu ymateb i'r cwestiwn hwn.

4.8.3. Nododd un ymatebydd fod nifer yr adeiladau a oedd wedi'u cynnwys yn ymddangos yn anghywir a nododd ymatebydd arall fod y costau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifiadau, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â hyfforddiant staff, yn ymddangos yn rhy isel, yn ei farn ef.

#### **Ymateb y Llywodraeth**

4.8.4. Mae nifer yr adeiladau wedi'i adolygu'n llawn ac roedd yn seiliedig ar y dull o gyfrifo uchder a'r meini prawf eraill a geir yn y disgrifiad o adeilad risg uwch – y nifer swyddogol yw oddeutu 171 o adeiladau bellach. Daw adeiladau presennol o dan y gyfundrefn dylunio ac adeiladu well ar gyfer adeiladau risg uwch, yn bennaf pan wneir gwaith pellach arnynt. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y caiff pum adeilad risg uwch newydd eu hadeiladu yng Nghymru bob blwyddyn, ar gyfartaledd.

4.8.5. Mae adolygiad o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a luniwyd ym mis Mehefin 2021, yn cael ei gynnal i'w gyflwyno gyda'r rheoliadau. Rydym yn ddiolchgar am y sylwadau a'r adborth. Rydym wedi'u hystyried a chânt eu defnyddio i ddiweddarau a mireinio'r asesiad effaith terfynol.

#### 4.9. Cwestiynau 10 i 12:

##### 4.9.1. Cwestiwn 10:

A fydd unrhyw agwedd ar y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn eich barn chi? (Y nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

#### 4.9.2. Crynodeb o'r ymatebion

|                     |    |       |
|---------------------|----|-------|
| <b>Bydd</b>         | 4  | 12.9% |
| <b>Na fydd</b>      | 13 | 41.9% |
| <b>Ddim yn siŵr</b> | 3  | 9.7%  |
| <b>Dd/G</b>         | 6  | 19.4% |
| <b>Dim ymateb</b>   | 5  | 16.1% |

#### 4.9.3. Cwestiwn 11:

Os bydd, dywedwch wrthym pa agwedd ar y polisi hwn fydd yn cael effaith andwyol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn eich barn chi, a Chwestiwn 12: Ar gyfer pob agwedd rydych wedi'i nodi, dywedwch wrthym ar bwy bydd yn cael effaith andwyol a sut.

4.9.4. Nid oedd bron i 42% o'r ymatebwyr yn credu y byddai unrhyw agweddau ar y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig.

4.9.5. Roedd y rhai a oedd o'r farn y byddai'n cael effaith andwyol am i'r disgrifiad gynnwys rhai o'r adeiladau a oedd wedi'u heithrio gan gynnwys cartrefi gofal (lle na chyrhaeddir y trothwy uchder), ysbytai (lle na chyrhaeddir y trothwy uchder), safleoedd milwrol, sefydliadau diogel a gwestai.

4.9.6. Roedd rhai o'r nifer amcangyfrifedig o 42% o ymatebwyr nad oeddent yn credu y byddai'n cael effaith andwyol o'r farn y byddai hyn yn cyflwyno mesurau diogelwch gwell i bawb waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig.

#### Ymateb y Llywodraeth

4.9.7. Nod cyffredinol y polisi yw gwella diogelwch adeiladau risg uwch, er budd pob preswilydd/defnyddiwr. Rydym wedi ystyried pob un o'r ymatebion. Rydym yn dal i fod o'r farn ei bod yn briodol cynnwys ysbytai a chartrefi gofal (sy'n cyrraedd y trothwy uchder) yn y disgrifiad, ar ôl ystyried y ffaith ei bod yn fwy tebygol y bydd yr adeiladau hynny yn cael eu meddiannu gan bobl â symudedd cyfyngedig.

Byddwn yn parhau i adolygu'r polisi, yn enwedig o ran p'un a ddylid ychwanegu adeiladau at y disgrifiad os bydd tystiolaeth newydd o risgiau uwch.

#### 4.10. Cwestiwn 13:

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r polisiâu arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

4.10.1. Ni chafwyd unrhyw sylwadau a nododd unrhyw effeithiau y byddai'r polisïau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg.

**4.11. Cwestiwn 14:**

Esboniwyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y polisïau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4.11.1. Ni chafwyd unrhyw sylwadau a nododd unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i'r polisïau arfaethedig a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru a'i gweledigaeth yw gweld yr iaith yn ffynnu. Er mwyn cyflawni hyn, mae Safonau'r Gymraeg yn set o ofynion cyfreithiol gyfrwymol sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. Caiff holl ddogfennau Rheoliadau Adeiladu eu hystyried yn erbyn y safonau a'u cyhoeddi yn unol â hynny.

**4.12. Cwestiwn 15:**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

4.12.1. Cafwyd nifer bach o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Adlewyrchir y meysydd allweddol sy'n destun pryder yn y ddau sylw canlynol sydd wedi'u crynhoi:

4.12.2. Mae tirwedd wahanol ar gyfer Adeiladau Risg Uwch yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Fodd bynnag, mae cysondeb â llywodraeth y DU o'r pwys pennaf er mwyn osgoi dysgu ychwanegol a gwallau posibl ar gyfer y rhai sy'n gweithio ar draws gweinyddiaethau.

4.12.3. Deallir bod penderfyniad i ddechrau gyda'r disgrifiadau mwy cyfyng gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ond dylid cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod adeiladau risg uwch a'r rhai sy'n eu meddiannu yn cael eu diogelu'n briodol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.12.4. Sicrhawyd cysondeb i raddau helaeth rhwng disgrifiad Cymru a disgrifiad Lloegr. Yr unig wahaniaeth allweddol yw bod y cwmpas wedi'i ehangu yng Nghymru er mwyn ychwanegu un uned breswyl yn hytrach na dwy at y disgrifiad. Y rheswm dros hyn yw bod un uned yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer cladin llosgadwy ac yn ystyried y brif risg o dân pan fydd pobl yn cysgu yn yr eiddo. Mae'r risg o ran cysgu yn gysylltiedig ag un annedd ac nid yw wedi'i chyfyngu i adeiladau â dwy uned neu fwy.

4.12.5. Yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r disgrifiad, disgwylir i ddarn sylweddol o ymchwil gael ei wneud a'i gyhoeddi. Bydd yr ymchwil honno yn llywio'r adolygiad cyntaf o'r rheoliadau hyn.

## 5. Y Camau Nesaf

5.1. Bydd y rheoliadau hyn bellach yn cael eu cwblhau, gyda rhai diwygiadau yn cael eu gwneud er eglurder/er mwyn sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith yn llawn, ac yn unol ag ymatebion y Llywodraeth uchod ac maent yn debygol o gael eu gosod gerbron y Senedd yn yr Hydref yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.